

# Strategaeth Golwg Cymru 2018 - 2021

## Ein blaenoriaethau



# Ymhlith yr aelodau presennol mae:



Inclusion & Sustainability  
Consultants



Cardiff Institute  
for the Blind  
Sefydliad y  
Deillion Caerdydd



Care & Repair Cymru



**Macular Society**  
Beating Macular Disease



**R N I B**  
Cymru  

---

Golwg gwahanol  
See differently



Wales Council of the Blind

# Cynnwys

1.	Strategaeth Golwg Cymru: trosolwg	4
2.	Deddfwriaeth a gwaith ategol	9
3.	Blaenoriaethau newydd Strategaeth Golwg Cymru	11
	<b>Blaenoriaeth 1:</b> Gwella iechyd llygaid y genedl a rhoi terfyn ar golled golwg y gellid ei osgoi	
	<b>Blaenoriaeth 2:</b> Gwella cymorth ar draws gwasanaethau gofal cymdeithasol	
	<b>Blaenoriaeth 3:</b> Gwella ymwybyddiaeth o golled golwg a chreu cymdeithas gynhwysol i bob person dall ac â golwg rhannol	
4.	Gwerthoedd	13
5.	Aelodaeth	14

# 1. Strategaeth Golwg Cymru: trosolwg

## Cefndir Strategaeth Golwg Cymru

Mae Strategaeth Golwg Cymru yn bodoli er mwyn cyflawni newid cadarnhaol ar gyfer pobl ddall ac â golwg rhannol yng Nghymru, eu cymunedau a'r boblogaeth yn gyffredinol, gan gynnwys y rhai hynny sydd mewn perygl o golli eu golwg.

Mae Strategaeth Golwg Cymru yn adlewyrchu blaenoriaethau pobl ddall ac â golwg rhannol ac mae wedi'i datblygu ar y cyd â sefydliadau sy'n rhanddeiliaid.

Mae Strategaeth Golwg Cymru yn agored bob amser i aelodau newydd sydd am gefnogi ein blaenoriaethau a llywio newid ar gyfer pobl â cholled golwg yng Nghymru.

## Ein blaenoriaethau

- Gwella iechyd llygaid y genedl a rhoi terfyn ar golled golwg y gellid ei osgoi.
- Gwella cymorth ar draws gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- Gwella ymwybyddiaeth o golled golwg a chreu cymdeithas gynhwysol i bob person dall ac â golwg rhannol.

## Nod Strategaeth Golwg Cymru 2018-2019

Bydd Strategaeth Golwg Cymru:

- Yn gwella ansawdd bywyd pobl yng Nghymru
- Yn cael effaith gadarnhaol ar ein system iechyd a gofal cymdeithasol
- Yn lleihau costau i economi Cymru.

## Menter Vision 2020: The Right to Sight

Mae Strategaeth Golwg Cymru yn alinio â Strategaeth Vision UK, sy'n rhan o fenter fyd-eang o'r enw 'VISION 2020: the Right to Sight', sef rhaglen ar y cyd rhwng Sefydliad Iechyd y Byd ac yr International Agency for the Prevention of Blindness.

Lansiwyd VISION 2020 ym 1999 gyda'r nodau deublyg o ddileu dallineb y gellid ei osgoi erbyn y flwyddyn 2020 ac atal yr amcanestyniad y byddai colled golwg y gellid ei osgoi yn dyblu rhwng 1990 a 2020. Mae Vision 2020 yn ceisio hyrwyddo "Byd lle nad oes neb yn dioddef nam diangen ar ei olwg, lle gall y rhai hynny sy'n dioddef colled golwg y gellid ei osgoi gyflawni eu potensial yn llawn."



Yn 2016, cynhaliodd tîm annibynnol o Wasanaethau Gwerthuso Elusennau y Cyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gwirfoddol (yr NCVO Charities Evaluation Services) adolygiad cynhwysfawr o gynnydd Strategaeth Vision UK, a chasglodd hefyd syniadau ynghylch dyfodol gwaith ym maes iechyd y llygaid a cholled golwg. Caiff Strategaeth Golwg Cymru 2018-2020 ei llywio gan ganfyddiadau'r adroddiad hwnnw.

## Monitro ac adrodd

Bydd cynnydd tuag at gyflawni'r blaenoriaethau strategol drwy ddatblygu targedau a rhaglenni gwaith newydd yn destun adrodd a monitro gan Bwyllgor Ymgynghorol Strategaeth Golwg Cymru.

## Rhai o gyflawniadau allweddol Strategaeth Golwg Cymru flaenorol 2014-2018

Mae Strategaeth Golwg Cymru wedi cyflawni newid cadarnhaol ar gyfer pobl ddall ac â golwg rhannol yng Nghymru, eu cymunedau a'r boblogaeth yn gyffredinol, gan gynnwys y rhai hynny a oedd mewn perygl o golli eu golwg. Er enghraifft:

## Mesurau Newydd ar gyfer Offthalmoleg sy'n Canolbwyntio ar Ddeilliannau

Cyflawniad sylweddol yn ystod tymor y strategaeth flaenorol yw ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid gofal llygaid i ddatblygu mesurau newydd sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau ym maes offthalmoleg i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad amserol i driniaeth. Mae Llywodraeth Cymru erbyn hyn yn gweithio gyda byrddau iechyd i sicrhau bod y rhain yn cael eu rhoi ar waith.

Bydd y mesurau newydd hyn yn darparu targedau sydd wedi'u cymeradwyo'n glinigol ac yn blaenoriaethu cleifion yn ôl eu risg o golled golwg na ellid ei wrthdroi, fel na ddylai neb golli ei olwg oherwydd cyflwr iechyd y gellid ei drin.

# Ffair Iechyd i Bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Mae ffair iechyd flynyddol wedi'i sefydlu sy'n cynnwys hyrwyddo iechyd y llygaid a phwysigrwydd cael profion llygaid rheolaidd ymysg cymunedau pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sydd mewn perygl o golled golwg yng Nghymru.

## Cronfa ddata wybodaeth a newyddlen ar gyfer y sector a phobl â cholled golwg

Aelod oedd yn gyfrifol am sefydlu a chydlynu 'Perspectif', cronfa ddata ar-lein o wasanaethau sydd ar gael ar draws Cymru. Lledaenwyd gwybodaeth am wasanaethau yng Nghymru drwy newyddlen 'Roundup' bob chwarter i ddwy fil a hanner o ddarllenwyr a thrwy fwletin 'Sylw' bob pythefnos, a hynny i 500 o danysgrifwyr. Aeth rhifynnau a chyfeiriadau Perspectif i danysgrifwyr Roundup, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Anelir yr wybodaeth hon yn bennaf at hysbysu'r sector am sefydliadau a mentrau a allai fod o ddefnydd i unigolion er mwyn cynorthwyo byw'n annibynnol.

## Ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd

Mae nifer o brosiectau ymchwil wedi'u cyflawni gan Brifysgol Caerdydd drwy weithio ag amryw o aelodau Strategaeth Golwg Cymru. Mae pedwar prosiect ymchwil wedi'u rhestru isod.

### **Gwella ymwybyddiaeth o iechyd llygaid mewn Cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghaerdydd**

Gweithiodd sawl aelod o Strategaeth Golwg Cymru ar y cyd â'r Ganolfan Addysg Offthalmig Ôl-raddedig ym Mhrifysgol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru a chyflawnwyd prosiect ymchwil helaeth yn ymchwilio i rwystrau a galluogwyr i bobl mewn Grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sydd mewn perygl yn dod ar eu traws wrth gyrchu gwasanaethau gofal llygaid sylfaenol. Cyhoeddwyd y canlyniadau mewn adroddiad a bu i'r argymhellion ddylanwadu ar ddulliau cyflwyno gwasanaethau a hyfforddiant staff i gynyddu'r defnydd o wasanaethau gofal llygaid ymysg y grwpiau hyn sydd mewn perygl.

### **Ymchwil ynghylch Tystysgrifo Nam ar y Golwg**

Mae ymchwil wedi'i chyflawni gan yr Ysgol Optometreg a'r Gwyddorau Golwg ym Mhrifysgol Caerdydd er mwyn ymchwilio i ymarferoldeb cyhoeddi Tystysgrifau Nam ar y Golwg i gleifion perthnasol mewn canolfannau optometryddion cymunedol. Disgwylir y bydd y canlyniadau ac adroddiad yn cael eu cyhoeddi yn 2018-19.

## **Pwysigrwydd adsefydlu cynnar ar gyfer cleifion â cholled golwg**

Cynhaliwyd ymchwil a oedd yn cynnwys aelod o Strategaeth Golwg Cymru ac Ysgol Optometreg a Gwyddorau Golwg Prifysgol Caerdydd gan amlygu pwysigrwydd adsefydlu cynnar sy'n arwain at fwy o welliant mewn galluedd golwg i gleifion â cholled golwg. Cyhoeddwyd papur ymchwil yn yr Investigative Ophthalmology and Visual Services Journal (IOVS) 2016 gan Acton, Molik, Court a Margrain.

## **Golwg isel ac iselder ysbryd**

Cynhaliwyd ymchwil gydag ymchwilwyr o Ysgol Optometreg a Gwyddorau Golwg Prifysgol Caerdydd mewn gwaith ag aelod o Strategaeth Golwg Cymru i amlygu pwysigrwydd sgrinio am iselder ysbryd mewn clinigau golwg isel. Canfu'r Treial 'Depression in Visual Impairment' (DEPVIT) fod 43 y cant o bobl sy'n colli eu golwg yn mynd ymlaen i ddiodef iselder ysbryd. Fodd bynnag, mae gwasanaethau golwg isel y GIG yn canolbwyntio ar yr angen corfforol yn unig, ac nid yw sgrinio na therapi seicolegol eto'n rhan annatod o adsefydlu.

Mae gwybodaeth bellach ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol

## **Cynhwysiant digidol**

Cyflwynwyd prosiect cynhwysiant digidol tair blynedd, "Ar-lein Heddiw" a gyllidwyd gan y Gronfa Loteri Fawr, gan aelodau Strategaeth Golwg Cymru rhwng 2015 a 2018. Yn sgil y prosiect galluogwyd dros 6000 o bobl ddall ac â golwg rhannol yng Nghymru i fynd ar-lein yng Nghymru ac uwchsgiliodd sefydliadau i gynyddu eu gwybodaeth, eu hyder a'u sgiliau i gefnogi pobl â cholled golwg i ddefnyddio technoleg ddigidol.

Rydym yn parhau i weithio gyda Chymunedau Digidol Cymru i sicrhau bod gan bobl ddall ac â golwg rhannol yr wybodaeth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i gyrchu a defnyddio technoleg ddigidol.

## **Hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd gorfodol i yrwyr tacsï a cherbydau llogi preifat**

Yn dilyn gwaith helaeth gan aelodau Strategaeth Golwg Cymru, derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad y dylai safonau cenedlaethol newydd a oedd yn cael eu sefydlu gynnwys gofyniad i bob gyrrwr tacsï a cherbyd llogi preifat yng Nghymru gwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd cyffredinol. Caiff datblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd ei gynnwys yn amcanion trafndiaeth hygyrch Llywodraeth Cymru, a gaiff eu cyhoeddi erbyn diwedd 2018. Bydd disgwyl i awdurdodau trwyddedu lleol sicrhau bod pob gyrrwr sy'n gweithredu yn eu hardaloedd yn ymgymryd â'r hyfforddiant.

## Gwasanaeth Cyngor a Gwybodaeth am Hawliau

Cyflwynodd aelod o Strategaeth Golwg Cymru RAISE, y Gwasanaeth Cyngor a Gwybodaeth am Hawliau, a gyllidwyd am dair blynedd gan y Gronfa Loteri Fawr, gyda chefnogaeth pobl ddall ac â golwg rhannol yng Nghymru i sicrhau gwerth £13m o fudd-daliadau nad oeddent wedi'u hawlio.

Gweithiodd y gwasanaeth yn agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddymchwel rhwystrau a wynebwyd gan bobl ddall ac â golwg rhannol a oedd yn eu hatal rhag hawlio'u hawl i fudd-daliadau.

## Lleihau arwahanrwydd ac unigrwydd

Cyflwynodd aelodau Strategaeth Golwg Cymru yng Ngogledd a De Cymru brosiect hynod o lwyddiannus a gyllidwyd gan y Gronfa Loteri Fawr a arweiniodd at weld 79 y cant o fuddiolwyr y prosiect yn dweud eu bod yn teimlo'n llai ar wahân ac unig; dywedodd 76 y cant eu bod yn teimlo'n fwy hyderus ac 85 y cant eu bod yn gwneud mwy y tu allan i'r cartref, fel ymweld â ffrindiau, siopa a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol neu hamdden.

## Adnodd Tai Hygyrch i Gynghorwyr yng Nghymru

Comisiynwyd aelod o Strategaeth Golwg Cymru i ysgrifennu adnodd Tai Hygyrch y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i Gynghorwyr yng Nghymru gyda Thai Pawb. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol ar gyfer gwella'r amgylchedd ar gyfer pobl â cholled golwg. Lansiodd y pecyn cymorth o'r enw 'Tai ar gyfer pobl anabl: pecyn cymorth ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru' mewn lansiad yn ddiweddar, wedi'i anelu at gynghorwyr awdurdodau lleol yng Nghymru, yn arbennig y rhai hynny sy'n gysylltiedig â thai a chynllunio.



## 2. Deddfwriaeth a gwaith ategol

**Bu nifer o ddatblygiadau a rhaglenni deddfwriaethol yn y blynyddoedd diwethaf sy'n alinio â nodau Strategaeth Golwg Cymru ac yn eu hatgyfnerthu.**

### Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid

Nod cyhoeddiad Llywodraeth Cymru "Law yn Llaw at Iechyd: Gofal Iechyd Llygaid, Cynllun Cyflawni Cymru 2013-2020" yw gwella iechyd llygaid yng Nghymru, a chefnogi'r rhai hynny sy'n byw gyda cholled golwg. Ymhlith blaenoriaethau allweddol y cynllun mae:

- Atal colled golwg y gellid ei osgoi a gwella iechyd llygaid.
- Adnabod iechyd llygaid gwael a phroblemau golwg yn gynnar.
- Darparu gwasanaethau hygyrch ac effeithlon o ansawdd uchel.
- Sicrhau integreiddio gwasanaethau a dulliau cyflawni sy'n canolbwyntio ar y claf.
- Darparu gofal a chymorth i bobl sy'n byw gyda nam ar y golwg/nam synhwyraidd deul.

Blaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Gofal Llygaid yw datblygu'r mesurau newydd sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau ym maes offthalmoleg. Nod y rhain yw lleihau'r risg o niwed a cholled golwg na ellid ei wrthdroi ar gyfer cleifion offthalmoleg yng Nghymru. Maent wedi'u dyfeisio i ystyried cleifion newydd a rhai presennol fel ei gilydd, ar sail angen clinigol a pherygl niwed. Mae'r mesurau newydd wedi dechrau adrodd cysgodol o fis Medi 2018 gydag adroddiadau llawn ar gael o fis Ebrill 2019.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a mabwysiadu dull gweithredu mwy cydlynus - gan helpu i greu Cymru rydym oll am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith statudol i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru er mwyn gwella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae gan bob un, boed yn oedolyn neu'n blentyn, yr hawl i gael llais fel unigolyn er mwyn llywio penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i gael rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd.

## Cymru Iachach

Mae cynllun "Cymru Iachach" Llywodraeth Cymru yn gosod gweledigaeth hirdymor ar gyfer dyfodol lle mae 'dull gweithredu system gyfan at iechyd a gofal cymdeithasol' yng Nghymru, sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant ac ar atal salwch.



### **3. Blaenoriaethau newydd Strategaeth Golwg Cymru**

#### **Blaenoriaeth 1: Gwella iechyd llygaid y genedl a rhoi terfyn ar golled golwg y gellid ei osgoi.**

**1.1:** Caiff pobl yng Nghymru fynediad amserol i driniaeth mewn gwasanaethau gofal llygaid er mwyn atal pobl rhag colli eu golwg yn ddiangen.

**1.2:** Mae pobl yng Nghymru yn deall sut i ofalu am eu llygaid a chael profion golwg rheolaidd er mwyn osgoi colled golwg y gellid ei osgoi.

#### **Blaenoriaeth 2: Gwella cymorth ar draws gwasanaethau gofal cymdeithasol**

**2.1:** Bydd pawb a effeithir gan golled golwg yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt ar yr adeg iawn.

#### **Blaenoriaeth 3: Gwella ymwybyddiaeth o golled golwg a chreu cymdeithas gynhwysol i bawb**

**3.1** Bydd pobl ddall ac â golwg rhannol sy'n cyrchu gofal iechyd yn derbyn gwybodaeth a dulliau cyfathrebu hygyrch yn eu dewis ffurf, ac yn cael eu grymuso i ddeall a gwneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd.

**3.2** Caiff profiadau ac anghenion pobl ddall ac â golwg rhannol eu cynnwys mewn rhaglenni, deddfwriaeth a gwasanaethau newydd.

**3.3** Bydd seilwaith trafndiaeth Cymru yn gwbl hygyrch i bobl â cholled golwg er mwyn galluogi teithio'n annibynnol.

**3.4** Caiff achosion o arwahanrwydd ac unigrwydd a wynebier gan bobl ddall ac â golwg rhannol eu lleihau.

**3.5** Gall pobl ddall ac â golwg rhannol fyw a symud o gwmpas yn ddiogel ac yn annibynnol mewn amgylcheddau cynhwysol gan gynnwys cartrefi, cymunedau a strydoedd.

**3.6** Caiff plant ac oedolion ifanc sy'n ddall ac â golwg rhannol fynediad i hyfforddiant a chymorth priodol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial llawn yn yr amgylchedd dysgu.

**3.7** Caiff pobl ddall ac â golwg rhannol yr wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gyrchu a defnyddio technoleg ddigidol.

**3.8** Mae cyfleusterau hamdden a gweithgareddau yn gwbl hygyrch i bawb gyda cholled golwg, gan gynnwys chwaraeon, ymarfer corff, hobiau a'r celfyddydau gweledol a pherfformio.



## 4. Ein gwerthoedd

Caiff Strategaeth Golwg Cymru ei hategu gan set o werthoedd ac egwyddorion sydd wedi'u cytuno gan aelodau.

Dyma nhw:

- Cawn ein hysbysu a'n harwain gan bobl ddall ac â golwg rhannol: mae pobl ddall ac â golwg rhannol wrth galon popeth ac yn dylanwadu ar bopeth a wnawn.
- Rydym yn gydweithredol: rydym yn gweithio ynghyd i wneud y gwahaniaeth mwyaf, gan rannu a dysgu o brofiad.
- Rydym yn greadigol: rydym yn deall heriau ac yn canfod ffyrdd o'u goresgyn a symud ymlaen.
- Rydym yn gynhwysol: rydym yn cynnwys ac yn gwerthfawrogi pobl o brofiad, galluoedd a chefnidiroedd amrywiol.
- Rydym yn cyd-gynhyrchu: rydym yn gweithio ynghyd â phobl ddall ac â golwg rhannol mewn ffordd gydradd, gan rannu dylanwad, sgiliau a phrofiad.
- Rydym yn ddwyieithog ac yn hygyrch: rydym yn sicrhau bod gwybodaeth a dulliau cyfathrebu'n hygyrch ac yn ddwyieithog.
- Rydym yn agored ac yn dryloyw: rydym yn onest ac yn dryloyw, gan herio'n hunain ac eraill.
- Rydym yn seilio'n gwaith ar dystiolaeth: rydym yn sicrhau bod ein gwaith wedi'i seilio ar dystiolaeth.



## 5. Aelodaeth

Mae aelodau Strategaeth Golwg Cymru yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r llywodraeth, y trydydd sector, y sector cyhoeddus a'r sector preifat, mewn cydweithrediad sy'n ymdrechu i lywio newid ar gyfer pobl â cholled golwg yng Nghymru.

Mae Strategaeth Golwg Cymru yn croesawu aelodau newydd er mwyn ein helpu i gyrraedd ein nodau uchelgeisiol a llywio newid ar gyfer pobl â cholled golwg yng Nghymru.

RNIB Cymru yw'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer Strategaeth Golwg Cymru. Am fwy o wybodaeth am y Strategaeth, cysylltwch â: [cymru@rnib.org.uk](mailto:cymru@rnib.org.uk)

### Ymhlith yr aelodau presennol mae:

Access Design Solutions  
Sefydliad y Deillion Caerdydd  
Gofal a Thrwsio Cymru  
DeafBlind Cymru  
Fforwm Swyddogion Adsefydlu Cymru  
Guide Dogs Cymru  
Macular Society  
Optometreg Cymru  
Prifysgol Abertawe  
RNIB Cymru  
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru  
Sight Cymru  
Vision UK  
Cyngor Cymru i'r Deillion  
Llywodraeth Cymru